



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Scott.waddington@tfw.wales

13 Ionawr 2021

Annwyl Scott

Llythyr cylch gwaith – Tymor y Llywodraeth – ar gyfer Trafnidiaeth Cymru (Cywiriad)

Yn dilyn y llythyr cylch gwaith dyddiedig 16 Tachwedd rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu ynghylch cywiriad y mae angen ei wneud i'r adran o'r llythyr hwnnw sy'n trafod cyllid. Yn anffodus dylai'r llythyr fod wedi nodi bod y cyllid sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyfnod yn cynnwys y cyllid a ddarparwyd fel rhan o'r cylch gwaith interim ym mis Mai 2020.

Dylai'r manylion canlynol gymryd lle'r adran o'r llythyr dyddiedig 16 Tachwedd sy'n trafod cyllid:

Cyllid

Dyma gadarnhau'r cyllid ar gyfer cyfnod y cylch gwaith hwn;

	Terfyn
Cyllid Refeniw Cronnol	£379.743m
Cyllid Cyfalaf Cronnol	£267.829m

Nodwch y gallai'r cyllid dangosol hwn gynyddu neu leihau, a hynny'n amodol ar sawl ffactor gan gynnwys:

- Newid ym mlaenoriaethau'r Llywodraeth a phortffolios y Gweinidogion;
- Amrywiadau mewn cyllidebau;
- Cymeradwyo'r cynllun busnes a newidiadau a allai gael eu cymeradwyo yn ei sgil;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod cyfnod y llythyr cylch gwaith hwn ac er mwyn cydnabod y cyfyngiadau ariannol y gallai Llywodraeth Cymru eu hwynebu yn sgil ymdrin â COVID-19, dylai'r holl wariant brys ar brosiectau ac eithrio ymrwymiadau dan gontract gael eu trafod a'u cymeradwyo gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyllid sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyfnod hwn yn cynnwys y cyllid a ddarparwyd fel rhan o'r cylch gwaith interim ym mis Mai 2020 ac mae'n seiliedig ar yr hyn yr ydych wedi nodi sydd ei angen arnoch ar gyfer gweithredu yn yr hinsawdd sydd ohoni. Ni ddylai'r cyllid gael ei drin fel arwydd o dderbyn cyllid ar gyfer unrhyw gynllun busnes drafft/rhaglen waith flynyddol ddrafft a drafodwyd â Llywodraeth Cymru hyd yma.

Unwaith y caiff y cyllid ei gymeradwyo caiff ei dalu i Trafnidiaeth Cymru fel grant, a hynny'n fisol ymlaen llaw ar sail hawliad chwarterol y Cwmni. Caiff unrhyw daliadau ymlaen llaw i'r Cwmni eu cynnwys o fewn y terfynau cyllid cronol yn ystod proses tynnu i lawr y grant misol. Caiff gwariant y Cwmni ar daliadau ei gysoni yn ystod y cyfnod.

Mae'r Terfyn Cyllid Refeniw Cronol a'r Terfyn Cyllid Cyfalaf Cronol yn cynnwys unrhyw rwymedigaeth o ran TAW y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ei wynebu ond nad oes modd iddo ei hadennill.

Bydd cyllid yn cael ei ddarparu yn unol â chanllawiau ynghylch cyllidebu ar gyfer cyrff Cyhoeddus a dylai gael ei ddefnyddio a dylid adrodd arno yn unol â hynny.

Er bod Trafnidiaeth Cymru yn gwmni sydd wedi'i ymgorffori o dan y Ddeddf Cwmnïau a bod yn rhaid iddo lunio ei gyfrifon blynyddol ei hun yn unol â hynny, gan ei fod yn gwmni sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru mae gofyn iddo hefyd gyflwyno i Lywodraeth Cymru gyfrifon wedi'u haddasu sy'n cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM). Caiff y cyfrifon hyn sydd wedi'u haddasu eu cyfuno â chyfrifon grŵp Llywodraeth Cymru. Caiff yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r rhain ei nodi yn y Cytundeb Rheoli. Yn ogystal â hyn, os bydd unrhyw oblygiadau o ran cyllidebu neu gyfrifyddu ynghlwm wrth gamau gweithredu gan Trafnidiaeth Cymru mae angen i Trafnidiaeth Cymru nodi'r rhain cyn gynted â phosibl a chynghori Llywodraeth Cymru ynghylch natur y goblygiadau hyn.

Hoffwn ymddiheuro am y camgymeriad hwn a gobeithio bod y manylion uchod yn sicrhau bod y sefyllfa'n glir.

Yn gywir



Ken Skates AS/MS

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales